National
Fostering
Framework
Fframwaith
Maethu
Cenedlaethol

AFA CYMRU
association for fostering and adoption
cymdeithas ar gyfer maethu a mabwysiadu

CANLLAW ARFER DA AR GYFER ASESU A CHEFNOGI

# Gofalwyr Maeth sy'n Berthnasau





Mae'r canllaw hwn wedi'i greu gyda chymorth ymarferwyr ledled Cymru a gan aelodau o deuluoedd sydd wedi bod drwy'r broses asesu eu hunain.

Mae ein diolch i bawb sydd wedi cyfrannu eu harbenigedd a'u hamser mor hael ac yn benodol i'r Athro Joan Hunt o Brifysgol Caerdydd.

Noder ein bod yn defnyddio'r ymadrodd 'aelodau'r teulu' yn ystod y canllaw hwn, sy'n cwmpasu nid yn unig aelodau'r teulu ond ffrindiau ac aelodau o rwydwaith cymdeithasol y teulu hefyd.

Defnyddir y term 'gofalwr nad yw'n berthynas' yn yr un modd â'r term 'personau cysylltiedig'.

# Cyflwyniad

1

Mae asesu aelodau o'r teulu neu ffrindiau agos fel gofalwr maeth sy'n berthynas ar gyfer plentyn nad yw'n gallu aros gyda'u teulu biolegol yn un o'r asesiadau mwyaf cymhleth y gallai gweithiwr cymdeithasol ymgymryd ag ef.

Yn ystod Cam 1 y gwaith i ddatblygu Fframwaith Maethu Cenedlaethol (NFF) yng Nghymru nodwyd gofal maeth gan berthynas yn un o'r materion allweddol oedd yn achosi pryder i ymarferwyr ledled y wlad. Mae Argymhelliad 7 yn yr adroddiad terfynol yn datgan:

**'Sicrhau mwy o gysondeb o ran defnyddio gofalwyr maeth sy'n berthnasau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.'**

Er mwyn dilyn yr argymhelliad hwn, o dan gam 2 yr NFF, fe wnaeth AFA Cymru ddwyn ymarferwyr, gofalwyr maeth sy'n berthnasau, swyddogion adolygu annibynnol a gwarcheidwaid plant ynghyd i gasglu gwybodaeth o ledled Cymru. Mae cynnwys y canllaw yn seiliedig ar yr arfer da a'r gwersi a ddysgwyd o'r digwyddiadau hynny yn ogystal ag o waith ymchwil, cyfraith achos, adolygiadau o achosion difrifol a themâu arolygu.

Mae hwn yn ganllaw i asesu aelodau'r teulu, ffrindiau ac aelodau eraill o rwydwaith cymdeithasol y teulu fel gofalwyr maeth sy'n berthnasau; fodd bynnag mae'n hanfodol cyfeirio at warcheidiaeth arbennig gan y bydd y ddau asesiad yn aml yn cael eu cynnal ar yr un pryd pan fydd y plentyn naill ai yn y broses cyn achos neu'n destun achos gofal. Nid yw'r canllaw hwn yn honni bod yn 'gyfarwyddyd'. Mae ei egwyddorion yn seiliedig mewn cyfraith achosion cyfredol, ymchwil cyfredol a chanfyddiadau o adolygiadau achosion difrifol.

Mae'r ymchwil mwyaf diweddar, y cyfeirir atynt yn y canllaw, yn ystyried lleoliadau gyda pherthnasau yng nghyd-destun gwarcheidiaeth arbennig, ond mae'r gwersi a ddysgwyd mewn perthynas ag asesu a chefnogaeth yr un mor berthnasol ar gyfer maethu ag y maent ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig.

Fel arfer bydd ymgeiswyr ar gyfer gofal maeth yn cysylltu ag asiantaethau maethu ar ôl meddwl am gyfnod hir am ddod yn ofalwr maeth, paratoi'r ffordd gyda'u teulu eu hunain a gwneud trefniadau ymarferol ar gyfer newid ymarferol yn eu ffordd o fyw.

Ar y llaw arall, gofynnir fel arfer i ddarpar ofalwyr sy'n berthnasau ystyried dod yn ofalwyr maeth ar adeg o argyfwng emosiynol eithafol yn eu teulu. Gofynnir iddynt ymddiried yn y bobl sydd o bosibl wedi creu'r argyfwng, trafod pob elfen o'u bywydau personol a gwneud eu hunain yn agored i graffu gan baneli, gweithwyr cymdeithasol, cyfreithwyr a llysoedd. Os na fyddant yn ymwneud â'r broses hon maen nhw mewn perygl o golli'r plentyn sy'n berthynas i aelod arall o'r teulu, i'w fabwysiadu neu i ofal maeth yn y brif ffrwd.

Mae gweithwyr cymdeithasol yn gyfrifol am y dasg o ymgysylltu ac asesu aelodau o'r teulu a allai weld bai arnynt am yr ymyrraeth yn eu teulu, neu fel arall, y diffyg ymyrraeth gynharach.

Mae'r canllaw hwn yn ceisio helpu ymarferwyr i sefydlu arfer da mewn perthynas ag asesiadau gofalwyr sy'n berthnasau. Dim ond drwy gwblhau asesiadau llawn a chadarn y gellir gwneud argymhellion a phenderfyniadau'n briodol er budd pennaf y plentyn, ar y panel maethu, gyda'r penderfynwr, ac yn y llys teulu.

Mae'n rhaid i'r berthynas sy'n cael ei meithrin gyda'r darpar ofalwyr sy'n berthnasau fod yn seiliedig ar onestrwydd a pharchu gan y naill at y llall. Mae aelodau o'r teulu yn pwysleisio'n gyson bwysigrwydd cael eu trin gyda pharch ac empathi yn ystod y broses. Maent hefyd yn cyfeirio at bwysigrwydd gwybod beth yw'r problemau yn y teulu yn fuan.



*Nid wyf yn hoffi "bod yn rhan o broses"*

*Nid wyf yn ofalwr, rwyf yn fam-gu iddo*

*Rwyf wedi magu teulu cyfan heb gael fy asesu*

# Nodi gofalwyr sy'n berthnasau yn gynnar

2

## Pwyntiau Allweddol

- Mae nodi aelodau o'r teulu yn gynnar yn hanfodol.
  - Yn aml, mae aelodau o'r teulu'n dweud yr hoffent fod wedi cael eu cynnwys yn gynharach er mwyn cefnogi'r rhieni.
  - Mae'n galluogi amser i gynnal yr asesiad gofalwyr sy'n berthnasau yn briodol.
  - Mae'n rhoi amser i aelodau o'r teulu addasu i'r sefyllfa newydd a'r hyn a ofynnir ganddynt, ac felly'n hwyluso eu cynnwys yn y broses asesu.
- Mae dull systemig trefnus o weithio yn y cyfnod cyn yr achos, yn cynnwys timau gofal plant gweithredol, adrannau cyfreithiol a thimau maethu/gofalwyr sy'n berthnasau, yn helpu i greu ffocws ar nodi aelodau o'r teulu.
- Mae cynadleddau grwpiau teulu neu gyfarfodydd teulu yn ffordd effeithiol o gynnwys aelodau'r teulu yn y cynllun gofal.



## 2.1 YMGYSYLLTU AELODAU'R TEULU YN Y DASG

Mae nodi aelodau o'r teulu yn gynnar yn amserlen y plentyn yn hollbwysig. Mae'n galluogi awdurdodau lleol i gydymffurfio gydag amserlenni Amlinell Cyfraith Gyhoeddus (unwaith mae achos gofal wedi dechrau) tra hefyd yn sicrhau digon o amser i gynnal asesiad.

Mae hefyd yn rhoi gymaint o amser ag sy'n bosibl i ddarpar ofalwyr sy'n berthnasau amgyffred beth sy'n digwydd yn eu teulu, dod dros yr hyn sy'n aml yn newyddion syfrdanol a phoenus bod plentyn yn y teulu wedi dioddef, neu mewn perygl o ddioddef, niwed sylweddol ac addasu'r ffordd maen nhw'n meddwl am yr hyn sydd wedi digwydd. Gelwir hyn yn:

**'daith o anghrediniaeth i ddealltwriaeth o sefydlogrwydd'.**
*Jenny Frost, Rheolwr Tîm, Sir y Fflint*

Yna mae darpar ofalwyr mewn sefyllfa i feddwl yn glir ac yn wrthrychol am p'un a ydyn nhw, neu aelodau eraill o'r teulu, yn gallu cynnig gofal amgen, parhaol ac i wneud penderfyniad gwybodus.

Gallai cynnwys aelodau'r teulu yn gynnar, ar y cam amddiffyn plant/ymholiad s47, neu'n gynharach hyd yn oed, arwain at hwyluso perthynas haws gyda nhw os bydd angen uwchgyfeirio amgylchiadau'r plentyn i'r protocol cyn achos.

Mae aelodau o'r teulu yn gyson yn mynegi barn o ran y cynharaf y byddan nhw'n gwybod am broblemau, y gorau. Gallai'r sioc i aelodau'r teulu gael ei leihau ac, os yw gweithiwr cymdeithasol y teulu wedi defnyddio'r broses yn dda, gallai aelodau'r teulu sydd dan sylw deimlo'n fwy abl i weld eu hunain fel rhan o'r tîm sy'n cefnogi'r plentyn.

Os nad oes unrhyw ymwneud cynnar, mae aelodau'r teulu sy'n cael eu nodi drwy'r protocol cyn achos yn unig neu drwy'r achos gofal hyd yn oed, yn dweud eu bod yn teimlo iddynt gael eu rhuthro ac yn ddryslyd, a allai arwain at agwedd amddiffynnol ddealladwy. Mae hyn yn ei dro yn rhwystro proses asesu llawn a chadarn.

Mae'r egwyddor o ymgysylltu'n gynnar wedi'i amlygu yn adroddiad AGGCC (AGC bellach): Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun PLO cyn achos, Rhagfyr 2016. Mae Argymhelliad 3.3 yn nodi:

'Dylai trefniadau fod ar waith i sicrhau bod ymgysylltiad gyda theuluoedd yn gynnar i gytuno ar ba opsiynau sefydlog sydd ar gael. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod teuluoedd yn deall yn llawn yr angen i enwebu gofalwyr o fewn y teulu.'



Arfer Da

Mae gan awdurdodau lleol ledled Cymru ffyrdd gwahanol o gynnwys aelodau'r teulu ar y cam hwn. Mae rhai yn trefnu cynadleddau grŵp teulu ffurfiol; mae eraill yn defnyddio 'cyfarfodydd teulu' wedi'u trefnu gan weithiwr cymdeithasol y plentyn neu reolwr tîm. Mae awdurdodau lleol sy'n defnyddio 'Arwyddion Diogelwch' yn defnyddio cyfarfodydd 'rhwydwaith teulu' yn gynnar.

Mae gan Ogledd Cymru bolisi sy'n hwyluso cynhadledd grŵp teulu neu gyfarfod yn gynnar iawn, os yn bosibl cyn i'r plentyn ei wneud yn destun cynllun amddiffyn plentyn a dim hwyrach na deunaw mis ar ôl i'r cynllun amddiffyn plentyn gael ei wneud, ond nid oes cynllun hyd yma i geisio symud y plentyn. Mae'r holl gynadleddau grŵp teulu ffurfiol a gynhelir yng Nghymru yn cynnwys gweithiwr cymdeithasol o'r sector statudol.

## 2.2 CYFARFODYDD TEULU

Mae ffurf y cyfarfod o lai o bwys na'r bwriad i wneud cysylltiadau gyda theulu a ffrindiau agos. Mae cyfarfod neu gynhadledd grŵp teulu yn rhoi cyfle i aelodau'r teulu wybod, yn gynnar, bod anawsterau gyda rhianta'r plentyn ac i weithiwr cymdeithasol y plentyn godi proffil pryderon diogelu, ymhlith y teulu estynedig, cyn gynted ag y bo'n bosibl.

Dyma pryd y gallai aelodau'r teulu o bosibl gynnig cefnogaeth i'r rhiant/rhieni. Mae hefyd yn rhoi darlun cliriach i'r awdurdod lleol o pwy allai fod ar gael i ofalu yn ddiweddarach a gwybodaeth gyfredol ar gyfer genogram.

Er bod 66% o awdurdodau lleol a adolygwyd yn 2016 (NFF, Cam 2 Adroddiad Gofalwyr Sy'n Berthnasau AFA) wedi nodi eu bod yn cynnal rhyw fath o gyfarfod teulu yn aml neu'n achlysurol, dywedodd nifer fechan nad oedd ganddynt unrhyw ffordd o gael aelodau'r teulu ynghyd i drafod cynllun amddiffyn y plentyn, a'u cyfranogiad i'r cynllun hwnnw.

Fe wnaeth Research in Practice (2015c) ganfod bod y defnydd o gynadleddau grŵp teulu yn amrywio ac efallai nad oedd darpar ofalwyr yn dod ymlaen/yn cael eu nodi nes i'r achos gofal fynd rhagddo o ddifrif (RIP, 2016).



## Arfer Da

### YSTYRIAETHAU AR GYFER CYFARFOD TEULU – RHESTR WIRIO GRYNO

**Pam cael cyfarfod teulu?**

- I aelodau o'r teulu allu dysgu am anghenion y plentyn a chanolbwyntio ar y rhain
- I aelodau o'r teulu allu dechrau meddwl p'un a allant ddiwallu anghenion arbennig y plentyn hwn
- I aelodau o'r teulu deimlo'n rhan fwy annatod o'r broses gynllunio ar gyfer eu perthynas sy'n blentyn
- I weithiwr cymdeithasol y plentyn gael syniad o bwy sydd yn y teulu a dechrau asesu deinameg y teulu

**Pryd ddylai cyfarfod teulu ddigwydd?**

- Lle bo'n bosibl dylai cyfarfod teulu gael ei gynnal ar y cam ymholiad amddiffyn plentyn/s47 Deddf Plant, lle mae'r cyfarfod yn edrych yn bennaf ar gadw'r plentyn gartref o dan gynllun amddiffyn plentyn. Felly, mae aelodau o'r teulu yn ymwybodol o adeg gynnar bod gan yr awdurdod lleol bryderon ynghylch gofal y plentyn. Mae hyn yn gwneud y pontio o amddiffyn plant i brotocol cyn achos neu ddechrau ar achos yn llai o sioc a syrpréis

- Pan nad oes cyfarfod cynnar wedi'i gynnal, dylid trefnu un cyn gynted ag y mae'r penderfyniad yn cael ei wneud i fynd i'r protocol cyn achos, er mwyn nodi gofalwyr amgen posibl, p'un a oes ganddynt gefnogaeth teulu neu p'un a oes cystadlu rhwng darpar ofalwyr

- Pan fydd achos wedi dechrau os nad oes cyfle wedi bod i gael cyfarfod cyn hyn, neu os yw aelodau o'r teulu neu ffrindiau agos wedi gwneud eu hunain yn hysbys i'r awdurdod lleol yn ddiweddarach, dylid trefnu cyfarfod teulu

Unwaith y bydd un cyfarfod teulu wedi'i gynnal a bod y teulu estynedig wedi arfer gyda'r strwythur a'r broses, gelir trefnu cyfarfodydd eraill yn ddiweddarach i fynd i'r afael â materion gwahanol, er enghraifft trefniadau cyswllt.

**Materion i'w hystyried mewn cyfarfod yn y teulu**

- Sut i nodi'r bobl i'w gwahodd
- Lleoliad y cyfarfod
- Gofal plant
- Pwy i gadeirio'r cyfarfod
- Paratoi cyfranogwyr ar gyfer y cyfarfod
- Sicrhau bod y cyfarfod yn canolbwyntio ar anghenion y plentyn
- Bod yn glir gydag aelodau o'r teulu ynghylch beth rydych chi'n ceisio ei gyflawni o gynnal y cyfarfod
- Mae rhai ymarferwyr yn pwysleisio y dylid bod yn ofalus gyda system a arweinir yn llwyr gan y teulu o ran nodi gofalwyr amgen posibl. Gallai deinameg teulu olygu bod y gofalwyr mwyaf abl yn y teulu wedi'u heithrio o drafodaethau teuluol ac efallai na fyddant yn ymwybodol o'r cyfarfod teulu. Dyma lle y gallai genogram sydd wedi'i gwblhau ar adeg gyda llai o straen fod yn ddefnyddiol.

## 2.3 CYFRINACHEDD

Un o'r ffactorau a allai lesteirio ymgysylltiad cynnar yw'r diffyg eglurder ynghylch p'un a gellir torri cyfrinachedd y rhieni biolegol os yw awdurdodau lleol yn cysylltu gydag aelodau o'r teulu ac yn eu cynnwys mewn cynllunio neu asesiadau.

Mae arferion gorau ac egwyddorion diogelu data yn mynnu ceisio a chael cydsyniad gan y rhieni biolegol yn ystod y gwaith gyda nhw. Fodd bynnag, lle nad ydynt yn barod i roi'r cydsyniad hwnnw, mewn rhai achosion gallai fod er budd y plentyn i gysylltu ag aelodau o'r teulu.

Pan fo'r mater mewn achos gofal, yna gellir gofyn am gyfarwyddyd gan y barnwr a rhoi'r cyfarwyddyd hwn. Fodd bynnag, nid yw'r opsiwn hwnnw ar gael yn rhwydd mewn unrhyw waith cyn achos.

Mae arferion cyfredol awdurdodau lleol yn amrywio, gyda rhai yn ystyried cysylltu ag aelodau'r teulu yn erbyn dymuniad y rhieni biolegol yn anghyfreithlon. Mae eraill wedi ystyried y wybodaeth fel gwybodaeth y plentyn yn hytrach na'r rhieni ac felly wedi teimlo eu bod yn gallu cysylltu â gofalwyr posibl sy'n berthnasau.

Mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o'r egwyddorion diogelu data sy'n pennu arfer yn y maes hwn ac mae'n rhaid i bob penderfyniad a wneir ystyried amgylchiadau unigol pob plentyn a'r teulu. Mae'n bwysig gofyn am gyngor cyfreithiol cyn cysylltu ag aelodau o'r teulu neu ffrindiau heb gydsyniad y rhieni.

# Cymeradwyaeth dros dro i berthynas, ffrind neu berson cysylltiedig arall gyda'r plentyn

3

## 3.1 RHEOLIADAU 26 & 27 YN RHEOLIADAU CYNLLUNIO GOFAL, LLEOLI AC ADOLYGU ACHOSION (CYMRU) 2015

Daeth y rheoliadau uchod i rym ym mis Ebrill 2016 ynghyd â rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith. Mae'n diddymu ac yn disodli rheoliad 38(2) Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003.

Mae Atodlen 5 o'r rheoliadau yn nodi'r materion y mae'n rhaid eu hystyried wrth asesu addasrwydd 'person cysylltiedig', o dan reoliad 26, i ofalu am blentyn. Mae paragraffau 156 i 165 o Ran 6 y Cod Ymarfer yn rhoi canllawiau pellach.

Mewn rhai achosion, lle mae gwaith cyn achos wedi'i gyflawni ac mae cyfarfod neu gynhadledd grŵp teulu wedi'i gynnal, bydd gan yr awdurdod lleol rhywfaint o wybodaeth eisoes am yr aelodau o'r teulu dan sylw, a pherthynas gyda'r rhain.

Fodd bynnag, gwneir llawer o'r lleoliadau hyn mewn argyfwng, lle mae plentyn angen derbyn gofal gan yr awdurdod lleol a'r opsiwn arall fyddai rhoi'r plentyn gyda gofalwyr maeth cymeradwy heb unrhyw gysylltiad gyda'r plentyn.

Mae Atodlen 5 yn darparu rhestr hir i'w hystyried. Mae'r tri maes canlynol yn rhoi sylw i brif elfennau Atodlen 5 ac yn nodi'r materion pwysicaf i'w hystyried pan fydd yr adran hon yn cael ei defnyddio fel mater o frys.

### Arfer Da

**MATERION I'W HASESU AR UNWAITH**

**1. Y berthynas bresennol gyda'r plentyn**

- Pa mor dda mae'r person hwn yn adnabod y plentyn?
- Ydy'r plentyn yn gyfarwydd gyda'r cartref ac aelodau eraill yn y cartref?

**2. Y gallu i amddiffyn y plentyn rhag niwed**

- Bydd hyn o reidrwydd yn cynnwys dealltwriaeth o'r hyn mae'r plentyn wedi'i brofi, a pha mor agos yw'r gofalwr arfaethedig gyda'r rhieni biolegol a'i berthynas gyda nhw. Gallai'r aelod hwn o'r teulu fod mewn sioc wrth sylweddoli'r hyn sydd wedi digwydd yng nghyd-destun eu teulu eu hunain a bydd angen i'r cam asesu ganolbwyntio ar eu gallu i weithio gyda chynllun gofal yr awdurdod lleol a chytuno ar unrhyw gyfyngiadau a threfniadau ar gyfer cyswllt.
- Profiadau'r gofalwyr arfaethedig ac aelodau'r cartref eu hunain o broblemau iechyd meddwl neu gorfforol, trais domestig, problemau cyffuriau ac alcohol, neu anableddau dysgu. Ydy'r profiadau hyn yn atal y gofalwr arfaethedig rhag darparu gofal diogel a gofalgar ar hyn o bryd?
- Gwiriadau PNC
- Addasrwydd amgylchedd byw
- Agosrwydd at y rhai a allai niweidio/tanseilio'r lleoliad
- Gallu i weithio gyda gweithwyr proffesiynol/ymgysylltu â'r asesiad

**3. Agweddau ymarferol ar y lleoliad arfaethedig**

- Trefniadau cysgu
- Argaeledd darpar ofalwyr i fodloni anghenion y plentyn (ymrwymiadau gwaith/teulu eraill)
- Trefniadau ar gyfer mynd â'r plentyn i'r ysgol/meithrinfa a'i gasglu
- Trefniadau cyswllt
- Meddyg teulu/meddyginiaeth bresennol/anghenion gofal iechyd
- Gwybodaeth ysgrifenedig briodol i'r gofalwr sy'n nodi statws y lleoliad gyda nhw/awdurdod dirprwyedig
- Gwybodaeth ar anghenion a aseswyd ar gyfer y plentyn (os ar gael)
- Yr holl ystyriaethau CLA eraill (ymweliadau ac ati)
- 'Sgript' i'r gofalwr egluro i'r plentyn, mewn termau priodol i oedran y plentyn, pam ei fod ef/bod hi yn byw gyda nhw

# Asesiadau hyfywedd darpar ofalwyr maeth sy'n berthnasau

4

## 4.1 DIBEN ASESIADAU HYFYWEDD

Mae cyfraith achosion cyfredol (Re R (A Child) [2014] EWCA Civ 1625) wedi datgan nad oes rhaid i'r awdurdod lleol gymryd pob asesiad unigol posibl a dangos ei 'waith' yn y gwrandawiad terfynol, wrth gwblhau ei ddadansoddiad lles ar ddiwedd yr achos gofal.

Yn Re R fe wnaeth y Llys Apêl ddatgan:

'Mae'r broses (PLO) o nodi opsiynau y gellir eu diystyru yn gynnar yn yr achos ei hun yn gofyn am radd briodol o fanyldeb ... ond nid yw B-S yn ei gwneud yn ofynnol i edrych dan bob carreg ac archwilio'r tir yn helaeth ... ac nid oes chwaith unrhyw sail i dybio bod angen mwy nag un asesiad negyddol cyn y gellir diystyru gofalwr posibl.'

Felly, fe wyddom o ran nodi opsiynau bod rhaid cael 'manyldeb', ond wedi nodi opsiwn fel un afrealistig drwy broses drwyadl, yna ni fydd angen cwblhau asesiad llawn.

Er mai'r llys sydd i benderfynu pa opsiynau ddylai fynd ymlaen mewn achosion gofal, os oes tystiolaeth gadarn a chywir bod yr asesiad hyfywedd yn afrealistig, mae'n llai tebygol y bydd cyfarwyddyd i gynnal asesiad llawn, ac felly'n arbed amser ac arian i'r awdurdod lleol a'r llys, ac amser ac o bosibl siom yn ddiweddarach i'r darpar ofalwr.

## 4.2 HIDLO CYCHWYNNOL

Mewn rhai achosion gallai fod yn gwbl glir ar gam cynnar iawn bod aelod o'r teulu sy'n cyflwyno eu hunain i ofalu yn anaddas ac nad oes angen asesiad hyfywedd hyd yn oed. Gallai amgylchiadau o'r fath gynnwys y canlynol:

- Trosedd yn erbyn plentyn (gan ddibynnu ar y cyd-destun/treigl amser/natur y drosedd)
- Anallu amlwg (a diweddar) i weithio gyda'r awdurdod lleol
- Lle bu cyfranogiad sylweddol gyda'r awdurdod lleol ac mae tystiolaeth na ellir gwneud unrhyw waith i wella'r gallu i fagu plant neu leihau'r risg
- Aelod o'r teulu y bydd eu hoedran mae'n debyg yn eu hatal rhag gofalu am y plentyn am eu hoed minoriaeth (a lle nad oes gofalwr 'etifeddol' wedi'i nodi neu le nad yw'n addas)

Lle mae nifer fawr o aelodau'r teulu yn cynnig eu hunain mewn perthynas ag un plentyn neu grŵp o frodyr a chwiorydd, dylai'r awdurdod lleol geisio, drwy gynadleddau grŵp teulu, cyfarfodydd teulu neu drafodaethau, i nodi pwy fyddai'r opsiynau gorau (a mwyaf realistig) i'w cyflwyno i'r llys ar gyfer asesiadau hyfywedd.

Gyda gwaith o ansawdd da, gallai'r ymgeisydd gael ei helpu i ddiystyru ei hun, a gallai fod yn falch o allu gwneud hynny.

Y llys ddylai benderfynu p'un a ddylid diystyru darpar ofalwr yn y cam hidlo cyntaf os oes achos gofal cyfredol, ond os gellir gwneud trefniant cadarn a darparu gwybodaeth ddigonol ar y pryder difrifol penodol am eu haddasrwydd, yna dylai hynny fod yn ddigon o dystiolaeth i ddangos nad ydynt yn 'opsiwn realistig'.

Dylid defnyddio'r math hwn o asesu hidlo mewn amgylchiadau lle mae'r dystiolaeth yn glir iawn yn unig. Os oes unrhyw amheuaeth o ran p'un a ydynt yn opsiwn realistig, dylid cynnal asesiad hyfywedd.

## 4.3 PA MOR HIR DDYLAI ASESIAD HYFYWEDD EI GYMRYD?

Argymhellir bod asesiadau hyfywedd yn cael eu cynnal mewn 2 – 4 wythnos. Mae hyn yn unol â pholisi ac ymarfer cyfredol yng Nghymru.

## 4.4 PWY DDYLAI GYNNAL ASESIADAU HYFYWEDD?

Mae'n arfer da i gynnwys gweithiwr cymdeithasol y plentyn a gweithiwr cymdeithasol maethu/lleoli'r teulu.
Mae hyn er mwyn:

- Cyfuno eu gwybodaeth am y teulu er mwyn cael safbwynt a mewnwelediad gwahanol o ran sefyllfa'r teulu.
- Sicrhau nad yw'r teulu'n cael eu rhoi mewn sefyllfa o orfod rhoi gwybodaeth sydd eisoes yn hysbys i'r adran.
- Dod ag elfen ychwanegol o arbenigedd o ran asesu nad oes gan weithiwr cymdeithasol y plentyn o bosibl, h.y. asesu addasrwydd gofalwyr/gwybodaeth am Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003.
- Cyflwyno elfen o annibyniaeth i'r teulu.
- Darparu dadansoddiad sy'n canolbwyntio ar anghenion y plentyn a p'un a yw'n ymddangos y gallai'r aelodau hyn o'r teulu fodloni'r anghenion hynny'n ddigonol i gynnal asesiad llawn.



Lle mae dau asesydd dan sylw, mae angen datblygu llinellau atebolrwydd clir er mwyn sicrhau nad oes unrhyw waith yn gorgyffwrdd ac nad yw darpar ofalwyr yn gorfod mynd dros yr un wybodaeth ddwywaith (oni bai y bernir hynny'n angenrheidiol). Felly dylid cymryd amser i gynllunio'r gwaith os yw'n cwmpasu dau dîm, gan sicrhau bod cyfathrebu da a bod cyd-adolygiadau'n cael eu hintegreiddio i'r gwaith.

### Arfer Da

- Yng Ngogledd Cymru, mae gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'r gweithiwr cymdeithasol maethu yn cynnal yr asesiad.
- Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn cynnal yr ymweliad cyntaf. Yna mae archwiliad o gryfderau a gwendidau yn cael ei gynnal, gan ddilyn gydag ymweliad ar y cyd gyda'r gweithiwr cymdeithasol maethu i ganolbwyntio ar faterion penodol.

## 4.5 SUT I FYND I'R AFAEL AG ASESIAD HYFYWEDD

Wrth fynd i'r afael ag asesiad hyfywedd, mae'n bwysig i'r ymarferydd gofio'r canlynol:

- Dylid cydnabod y sioc a'r gofid a all y teulu fod yn eu profi.
- Dylid cynnal yr asesiad yn agored, yn gadarnhaol ac yn onest wrth ymchwilio p'un a allai'r aelodau hyn o'r teulu ofalu am y plentyn/plant dan sylw.
- Dyma ddechrau ar broses addysgiadol, dwy ffordd. Mae darparu gwybodaeth, sy'n cynnwys ystyriaethau cyffredin gyda'r hyfforddiant cyn-asesu "Sgiliau i Faethu" ar gyfer gofalwyr maeth yn y brif ffrwd wedi'i amlygu fel ffactor allweddol wrth sefydlu lleoliad sefydlog (Wade, 2014). Oherwydd natur digynllun y rhan fwyaf o leoliadau gyda gofalwyr sy'n berthnasau, mae angen i'r broses addysgiadol hon ddechrau'n gynnar a pharhau drwy'r broses asesu i gyd. Hefyd, nodwyd y ffactor hwn yn bwysig yn adroddiad AGGCC, 2016.

## 4.6 BETH DDYLAI ASESIADAU HYFYWEDD EU CYNNWYS?

Ledled Cymru mae awdurdodau lleol wedi datblygu eu mathau eu hunain o asesiadau hyfywedd, rhai ohonynt wedi'u cymeradwyo gan y bwrdd cyfiawnder teuluol lleol. Mae meincnodi ar draws y wlad wedi dangos bod y fformatau hyn yn cwmpasu'n fras yr un ardaloedd i gael eu dadansoddi. Mae'r Family Rights Group hefyd wedi cynhyrchu canllaw ar gyfer asesiadau hyfywedd, 'Asesiad Gofal Teulu a Ffrindiau Cychwynnol: Canllaw Arfer Da, 2017', sydd wedi'i gymeradwyo gan Lywydd yr Adran Deulu, yr Arglwydd Ustus Munby. Nid yw'r meysydd a gwmpesir yn y canllaw yn wahanol iawn i'r meysydd a gwmpesir yn y fformatau Cymraeg, ond mae'n cynnig canllaw defnyddiol ar feysydd penodol, yn arbennig ar gyfer yr ymarferwyr hynny sy'n ddibrofiad mewn perthynas â chynnal asesiadau hyfywedd. Mae'r canllaw arfer da ar gael ar wefan y FRG.

Mae pob lleoliad teulu a phlentyn yn unigryw felly nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, ac ni all byth fod. Bydd ymarferwyr yn gorfod defnyddio eu sgiliau yn yr asesiad i nodi p'un a oes meysydd eraill a allai fod yn berthnasol i bob asesiad unigol. Fel sydd bob amser yn wir mewn gwaith cymdeithasol, nid yw casglu gwybodaeth yn unig yn ddigon ar gyfer yr asesiad; dadansoddiad o'r wybodaeth hon yng nghyd-destun dymuniad yr ymgeisydd i gael ei ystyried fel darpar ofalwr ar gyfer y plentyn/plant penodol sy'n hollbwysig.

## Arfer Da

**Materion i'w cynnwys mewn asesiadau hyfywedd**

- Y rheswm dros y lleoliad arfaethedig
- Cymhelliant
- Llety, gan gynnwys trefniadau cysgu arfaethedig ar gyfer y plentyn
- Iechyd y darpar ofalwr ac aelodau o'r teulu/cartref
- Ysmygu
- Unrhyw hanes o drais yn y cartref
- Unrhyw ddibyniaeth ar sylweddau/ alcohol
- Consensws ar ran holl aelodau'r teulu/y cartref i gymryd rhan yn y broses asesu lawn/gofalu am y plentyn (plant)
- Profiad y darpar ofalwr o ofalu am blant. Unrhyw bryderon gan yr awdurdod lleol am hyn
- Pa mor dda mae'r plentyn a'r darpar ofalwr/ofalwyr yn adnabod ei gilydd/ansawdd y berthynas
- Dealltwriaeth darpar ofalwyr o'r hyn sy'n cael ei ofyn (o ran sefydlogrwydd ac amddiffyn)
- Dadansoddiad o ddynameg y teulu, dealltwriaeth aelodau o'r teulu am broblemau posibl, cefnogaeth aelodau o'r teulu i'r syniad o ailuno
- Effaith lleoli ar ddarpar ofalwr a'r teulu/cartref
- Perthynas weithio gyda'r awdurdod lleol ac asiantaethau eraill a'r gallu i ymgysylltu â chynllun gofal yr awdurdod lleol ac i gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol
- Cydweddoldeb y plentyn/plant gydag unrhyw anifeiliaid anwes yn y lleoliad arfaethedig
- Rhestr o ffactorau cadarnhaol a ffactorau risg

## 4.7 ASESIADAU HYFYWEDD A THEMPLED TYSTIOLAETH Y GWEITHIWR CYMDEITHASOL

Mae'r fersiwn ddiweddaraf o Dempled Tystiolaeth y Gweithwyr Cymdeithasol, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Chwefror 2016, yn amlinellu meysydd i'w hystyried mewn asesiad hyfywedd yn ddefnyddiol. Er nad yw wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol gan rai awdurdodau lleol yng Nghymru, mae'n cynnig canllaw defnyddiol:

**'Adran 6: Dadansoddiad o'r dystiolaeth o allu teulu ehangach a ffrindiau**
6.1 Dadansoddiad o'r dystiolaeth o allu teulu ehangach a ffrindiau i fodloni anghenion pob plentyn, gan gynnwys dadansoddiad o'r dadansoddiad o unrhyw fwlch gallu a p'un ai y gellir pontio hwn yn amserlen y plentyn/sut y gellir gwneud hyn.

**Ystyriaethau allweddol ar gyfer asesiad hyfywedd**

1. Dylai'r genogram a'r ecomap nodi'r perthnasau hynny sydd eisoes yn gysylltiadau amddiffynnol ar gyfer y plentyn fel mater o drefn. Dylai'r genogram a'r ecomap fod yn gynhwysfawr ac yn gynhwysol.
2. Dylai cysylltiadau peryglus gael eu heithrio rhag cael eu hystyried drwy broses hidlo gadarn. Dylai'r hyfywedd prima facie hwn – ar gyfer bod yn ofalwr parhaol – gael ei ymestyn gan dri o brofion pellach – cyn cynnal asesiad llawn
3. Y tri phrawf hyfywedd ychwanegol yw:

a) Bod y gofalwr yn deall anghenion cyffredinol y plentyn sy'n destun achos

b) Bod y gofalwr yn deall lefel y gofal a'r math o ofal y bydd y plentyn ei angen drwy gydol eu plentyndod o ganlyniad i'w profiadau

c) Bod y gofalwr yn mynegi parodrwydd dilys i fod yn rhan o'r tîm o amgylch y plentyn nes y bydd materion wedi'u datrys yn llawn.'

## 4.8 Y DADANSODDIAD O ASESIADAU HYFYWEDD

Ystyrir y meysydd canlynol fel y meysydd pwysicaf i'w hystyried yn y dadansoddiad terfynol ar ddiwedd y broses asesu hyfywedd:

1) Y perygl i'r plentyn os bydd yn cael ei leoli gyda darpar ofalwyr, o ran gallu'r gofalwr i amddiffyn y plentyn rhag unrhyw niwed gan y rhieni ac unrhyw niwed sy'n codi o'r gofal a ddarperir gan y darpar ofalwyr eu hunain

2) Y gallu i weithio gyda'r awdurdod lleol i roi'r cynllun gofal ar waith ar gyfer y plentyn

3) Y gallu i ddechrau gweld anghenion y plentyn ar wahân i anghenion y rhieni

4) A ellir rhoi sylw i unrhyw fwlch o ran gallu drwy ddarparu hyfforddiant a/neu gefnogaeth, o fewn yr amserlen ar gyfer y plentyn?

# Asesiadau llawn darpar ofalwyr maeth sy'n berthnasau

5



**Mae angen i asesiad da wneud y canlynol:**

- gwerthuso tystiolaeth a chydbwyso cryfderau, gwendidau a pheryglon lleoliad a pha mor briodol yw'r lleoliad i'r plant/plentyn dan sylw;
- hysbysu, addysgu a pharatoi gofalwyr ar gyfer y dasg sydd o'u blaenau, ar unwaith ac yn y tymor hirach;
- datblygu cynlluniau ymarferol ar gyfer cyswllt gyda'r rhieni, brodyr a chwiorydd, y ddwy ochr i'r teulu estynedig ac unigolion arwyddocaol eraill;
- nodi anghenion cymorth y plentyn a'r gofalwr a sut y gellid diwallu'r rhain.

Daw'r pwyntiau canlynol o Offeryn Ymarfer a baratowyd gan yr Athro Joan Hunt (Hunt, J. (2015) Assessing and Supporting Family and Friends Care, Ymchwil mewn Ymarfer. Yr heriau ar gyfer asesiadau gofalwyr sy'n berthnasau yw:

- sefydlu ymddiriedaeth a pherthynas gyda gofalwyr sydd efallai â barn negyddol am weithwyr cymdeithasol neu sy'n amddiffynnol ac ofn colli'r plentyn;
- ennill dealltwriaeth fanwl am gefndir/hanes bywyd y darpar ofalwyr
- gweithio gyda gofalwyr sydd efallai yn deall yr angen am asesiad ond nid ar gyfer ymchwiliad helaeth o'r fath;
- asesu gallu darpar ofalwyr nad ydynt o bosibl wedi bod yn gwbl ymwybodol o broblemau'r teulu ac sydd angen amser i ddod i delerau gyda'r hyn sydd wedi digwydd a delio gyda'u teimladau eu hunain o euogrwydd, cywilydd, dicter a cholled;
- asesu deinameg gymhleth ar draws system y teulu cyfan;
- helpu gofalwyr i gyflawni dealltwriaeth realistig o'r heriau posibl a'r effaith ar eu bywydau;
- nodi anghenion cymorth yn y tymor byr ac yn yr hirdymor;
- cwblhau'r asesiad mewn amser byr, ac yn aml mewn achos gofal, amser byrrach byth.

Mae'r Athro Joan Hunt yn mynd ymlaen i ddyfynnu:

'Her bellach yw cynnal asesiad cadarn sydd hefyd yn brofiad mwy cadarnhaol, cefnogol, sy'n achosi llai o ddieithrio i ofalwyr nag a nodir yn aml (Doolan et al, 2004; Farmer a Moyers, 2008; Hunt et al, 2008; Wade et al, 2014). I'r perwyl hwn ceir dadlau y dylid cynnal asesiadau ar y cyd, ar ffurf ymholiad, gan drin gofalwyr gyda pharch a sensitifrwydd, gwerthfawrogi eu mewnwelediadau unigryw a'u gwybodaeth a chanolbwyntio ar gryfderau teuluol a'r cymorth sydd ei hangen i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion (Doolan et al, 2004; Hela, 2009; Pitcher, 2001; Simmonds, 2011). Ni ellir gor-bwysleisio bod angen i'r asesiad fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth nad yw'n fater o gael cipolwg ar alluoedd cyfredol y gofalwr ond yn broses rhyngweithiol, deinamig, ac y gallai newid ddigwydd yn safbwynt y gofalwr, safbwynt y gweithiwr cymdeithasol ar y gofalwr, neu'r ddau, yn ystod y broses hon. Mae gwneud paratoi yn rhan hanfodol o'r asesiad yn cynorthwyo'r broses hon ac yn debygol o arwain at ganlyniadau gwell i blant a llai o straen ar ofalwyr (Wade et al, 2014). Os yw'n cael ei drin yn sensitif gallai ganiatáu i rai gofalwyr wneud y penderfyniad anodd i beidio â bwrw ymlaen.'

Wrth ymchwilio i asesiadau gwarcheidiaeth arbennig, adroddodd Wade (2014) er bod y rhan fwyaf o warcheidwaid arbennig yn teimlo bod yr asesiad yn ddigon trylwyr o ran asesu eu haddasrwydd, awgrymodd rhai bod y broses wedi bod ychydig yn unffordd ac nad oedd gweithwyr cymdeithasol wedi rhoi'r cyfle iddyn nhw ystyried goblygiadau'r gorchymyn iddyn nhw.

## 5.1 ASESU GALLU GOFALWR ARFAETHEDIG I DDIWALLU ANGHENION Y PLENTYN A'U GALLU I NEWID

Ystyrir y meysydd canlynol fel y pwysicaf.

**1. Hanes, nodweddion personol ac agweddau'r darpar ofalwr**

– Eu cefndir eu hunain a'u profiad o fod yn blentyn/patrymau ymlyniad. Eu gallu i adlewyrchu ar hyn

– Perthnasau presennol a pherthnasau yn y gorffennol

– Eu profiad eu hunain o fod yn rhiant i'w plant eu hunain. Gallu i dderbyn lle mae pethau wedi mynd o chwith o ran eu rhianta eu hunain (os yw hynny'n wir)

– Unrhyw bryderon gan yr awdurdod lleol am y plant hynny/tystiolaeth o newid

– Eu perthynas ag unrhyw blant eu hunain – a ydynt yn bwriadu cael mwy? Os yn sengl a allent ddechrau perthynas newydd?

– Eu gallu i roi'r plentyn/plant yn gyntaf yn eu meddyliau a nodi anghenion presennol y plentyn/plant a'u hanghenion yn y dyfodol

– Eu gwydnwch/gallu i ddyfalbarhau yn ystod heriau yn y gorffennol

– A ydynt yn uchelgeisiol ar gyfer aelodau o'u teulu? A fyddant ar gyfer y plentyn hwn?

– Dylid ceisio cynnwys tystiolaeth ac nid hunan-adrodd yn unig; mae angen defnyddio amrywiaeth o ffynonellau i driongli'r dystiolaeth.

**2. Perthynas y plentyn/gofalwr**

– Dylid ystyried ymchwil sy'n dangos bod lleoliadau gyda neiniau a theidiau yn creu mwy o sefydlogrwydd lleoliad (Farmer a Moyers, 2008 a Hunt et al, 2008) a bod perthynas sy'n bodoli eisoes yn ffactor amddiffynnol (Wade et al, 2014)

– Arsylwi'r berthynas (os oes un). Treulio amser gyda'r gofalwr a'r plentyn gyda'i gilydd

– Ymgymryd â gwaith uniongyrchol gyda'r plentyn – beth yw ei ddealltwriaeth/dealltwriaeth am y lleoliad arfaethedig a sut mae'n teimlo amdano (priodol i'r oedran)?

– Os nad oes perthynas dylech ystyried cyflwyno'r plentyn i'r gofalwr

– A oes digon o allu ar eu rhan i adeiladu ar y berthynas/caru'r plentyn?

– Dylech gynllunio cyflwyniadau cyn gwneud unrhyw orchymyn terfynol ac ystyried y dewis o orchmynion sydd ar gael i'r llys (hy o dan orchymyn gofal dros dro neu orchymyn trefniadau plentyn tymor byr cyn gwneud gorchymyn gofal neu warcheidiaeth arbennig) i symud y plentyn i'r lleoliad cyn gwneud y gorchymyn terfynol.

**3. Dealltwriaeth y gofalwr o'r dasg a'r effaith ar eu bywyd**

– Efallai y bydd yn cymryd amser i ddeall beth sydd wedi digwydd a beth sydd ei angen

– Cydnabod cryfderau a gweithio ar y rheini

– Derbyn beth sydd wedi digwydd a'r effaith ar y plentyn

– Gallu cytuno ar 'sgript' a gweithio gyda'r 'sgript' hwn mewn perthynas â dweud hanes bywyd

– Gallu gweithio gyda'r awdurdod lleol wrth ddweud unrhyw wybodaeth anodd a helpu'r plentyn i wneud synnwyr o'u bywyd eu hunain

– Beth yw eu dealltwriaeth o natur sefydlogrwydd? Gallu derbyn y goblygiadau am eu bywyd cyfan (hy bydd y plentyn dwy flwydd oed hwn gyda chi pan fyddant yn 7, 12, 17 ac ati)

– Gallu gweld safbwynt rhywun arall

– A fyddant yn dod yn 'rhiant' – sut maen nhw'n gweld eu rôl mewn perthynas â rhieni biolegol

– Rheoli cyswllt ac unrhyw wrthdaro posibl sy'n gysylltiedig â pherthnasau gyda'r teulu biolegol

– Gallu i dderbyn cymorth a gofyn amdano pan fo'r angen

– Dealltwriaeth briodol o'r gwahaniaethau rhwng bod yn ofalwr maeth ac yn warcheidwad arbennig neu gael gorchymyn trefniadau plentyn

– Os ydynt i fod yn ofalwr maeth, dealltwriaeth ddisgwyliad yr awdurdod lleol (adolygiadau/awdurdod dirprwyedig/recordiadau ac ati).

**4. Cymhelliant ac ymrwymiad**

– Mae angen i'r gofalwr ddeall pam eu bod nhw'n awyddus i gynnig eu hunain. Ai rheidrwydd, euogrwydd neu bwysau gan rieni? Os felly, bydd hynny'n arwain at oblygiadau ar gyfer y plentyn. Mae anghenion i'r cymhelliant fod, neu ddod, yn annibynnol, yn ddiamod ac mewn perthynas â'r plentyn ei hun. Ydyn nhw'n caru'r plentyn hwn/oes ganddyn nhw'r gallu i'w garu?

– Mae angen i'r gofalwr ddeall y cysyniad o sefydlogrwydd ar gyfer y plentyn hwn (fel uchod)

– Mae angen i'r gofalwr ddeall y bydd profiad y plentyn yn cael effaith ar ymddygiad a/neu ddatblygiad y plentyn

– Sut mae oedran a/neu iechyd y gofalwr yn effeithio ar eu gallu i ddarparu gofal nawr ac yn y dyfodol – yn ymwneud â'r cysyniad o sefydlogrwydd

– Cynlluniau wrth gefn

**5. Dynameg teuluol**

Os yw'n asesiad ar y cyd, dylid sicrhau bod y ddau ddarpar ofalwr yn cael eu hasesu, gan y gallai un fod yn ffactor amddiffynnol mwy, neu lai, na'r llall

– Edrych ar hanes y teulu

– Dealltwriaeth y bydd newid mewn blaenoriaethau ac, yn y tymor byr o leiaf, bydd angen i anghenion aelodau eraill o'r teulu, gan gynnwys plant, ddod yn ail i'r plentyn a leolir.

– Arsylwi'r teulu cyfan gyda'i gilydd/cynnal cyfarfod teulu. Arsylwi'r system teulu cyfan a, lle bo angen, edrych ar sut y gellid helpu'r teulu i weithio'n well

– Mae angen i holl aelodau arwyddocaol y teulu dderbyn yr hanes sydd wedi arwain at y teulu ehangach yn gofalu am y plentyn. Ni ddylai hyn fod yn hollbwysig, ond dylai fod yn onest ac yn ddiragfarn

- Ar ba gefnogaeth gan y teulu fydd y gofalwyr yn gallu dibynnu arno?
- Angen triongli'r dystiolaeth/profi'r wybodaeth a ddarparwyd

**6. Perthynas â'r rhiant/rhieni biolegol**

Daw'r testun mewn ysgrifen italig isod o ddogfen Cheshire East Borough Council v PN & Ors (Flawed Local Authority Assessment) [2017] EWFC 20

*'Un o'r materion allweddol (os nad y mater allweddol) i fynd i'r afael ag ef wrth asesu hyfywedd aelodau o'r teulu yw gallu pob un o'r oedolion hynny i amddiffyn y plentyn rhag y perygl o niwed a nodwyd'.*

*Nid yw asesiad risg/gallu i amddiffyn yn ymwneud â "diogelwch ar y ffyrdd, clwydi grisiau a Jack Russell swnllyd" ond yn hytrach â'r "cwestiwn canolog am allu'r (darpar ofalwyr) i amddiffyn y plentyn yn erbyn y perygl a nodwyd o niwed a gyflwynir gan y rhiant/rhieni"*

*Mae'n rhaid i ddarpar ofalwyr wybod beth yw "union natur y perygl o niwed" ac "mae'n rhaid i bob un sy'n cael sylw fod yn destun gwerthusiad cynhwysfawr o'u dealltwriaeth am y perygl hwnnw, a'u hagwedd tuag at y perygl hwnnw, er mwyn sefydlu i ba raddau mae ganddynt y gallu, neu nad oes ganddynt y gallu hwnnw."*

- Mae angen i'r plentyn wybod bod y gofalwr yn gallu ei amddiffyn/ hamddiffyn rhag ei rieni/rhieni biolegol
- Ydy'r gofalwr yn gallu gwrthsefyll perthynas cydfwriadol gyda'r rhieni biolegol?
- Ydy pawb yn glir am fanteision/ anfanteision cyswllt parhaus gyda'r rhieni biolegol?
- A fyddant yn gallu gosod cyfyngiadau ar/hwyluso cyswllt?
- A fydd rhieni biolegol yn derbyn eu bod yn dod yn rhiant i'r plentyn?

## 5.2 CAEL DIGON O AMSER, O FEWN YR ACHOS, ER MWYN GALLU CYNNAL ASESIAD CADARN O OFALWYR SY'N BERTHNASAU

Mae nifer o adolygiadau o achosion difrifol wedi amlygu problemau o ran cynnal asesiadau sydd yn ddiffygiol mewn cadernid. Er bod y rhain i gyd yn adolygiadau o achosion difrifol yn ymwneud â phlant a gafodd eu lladd neu oedd yn destun ymosodiad difrifol gan eu gwarcheidwaid arbennig, mae'r un egwyddorion yn berthnasol i asesu gofalwyr maeth sy'n berthnasau:

Mae Keegan Downer (Birmingham), Plentyn A a Phlentyn B (Swydd Rydychen) a Phlentyn J (Nottinghamshire), wedi amlygu'r peryglon canlynol mewn perthynas â byrder ac annigonolrwydd asesiad gofalwyr sy'n berthnasau:

- Dim perthynas yn bodoli eisoes gyda'r plentyn/plant (y tri adolygiad o achos difrifol). Roedd y gofalwyr a nodwyd yn perthyn i'r plant o bell ac nid oeddent yn eu hadnabod
- Yr angen am asesiad cadarn lle nad yw ffactorau risg yn cael eu cuddio ac nad yw diffyg profiad o ofal plant yn cael ei danbrisio, pan fo gan y plant dan sylw anghenion penodol ac ychwanegol (hy mae angen gofyn y cwestiwn 'all y person hwn fodloni anghenion y plentyn hwn?) (y tri adolygiad o achos difrifol)
- Yr angen am wiriad DBS manwl (gyda Keegan a J nid oedd gwiriad DBS ar y ffeil a byddai'r ddau wedi cynnwys gwybodaeth berthnasol)
- Yr angen am eirdaon cadarn gan fwy nag un ffynhonnell a chyfweld y canolwyr (J)
- Gormod o ddibyniaeth ar hunan adrodd yn yr asesiad (Keegan a J). Dim digon o driongli tystiolaeth/myfyrio yn yr asesiad
- Tanbrisio effaith profiadau'r gofalwr yn y gorffennol fel plentyn (y tri adolygiad o achos difrifol)

Wrth gwrs mae asesiad maethu yn gofyn am wiriad DBS manwl (a bellach mae hyn hefyd yn wir gyda Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygiad) 2018, lle mae angen gwiriad DBS manwl). Fodd bynnag, mae'r pwyntiau a wnaed mewn perthynas â'r canolwyr, dibynnu ar hunan-adrodd ac ystyried profiadau plentyndod yn y gorffennol yn berthnasol iawn i asesiad maethu.

**AMSERLENNI**

Mae'r fframwaith rheoleiddio cyfredol yn cydnabod bod asesiadau ar gyfer addasrwydd i ddod yn ofalwyr maeth yn gofyn am gyfnod rhesymol o amser.

Mae Rheoliad 26 yn Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achos (Cymru) 2015 yn caniatáu i'r awdurdod cyfrifol gymeradwyo perthynas, ffrind neu berson arall cysylltiedig â'r plentyn fel gofalwr maeth awdurdod lleol am gyfnod dros dro nad yw'n fwy na 16 wythnos.

Fodd bynnag, mae mynd ar drywydd yr amserlen 26 wythnos a osodir gan yr Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus, ac, mewn rhai achosion, mynd ar drywydd cwblhau set o achosion gofal mewn cyfnod hyd yn oed yn fyrrach, wedi arwain ymarferwyr i adrodd eu bod yn cael eu cyfarwyddo gan y llysoedd i gynnal asesiadau mewn cyfnodau byr iawn o amser.

Sut all ymarferwyr osgoi, os yn bosibl, derbyn amserlen nad ydynt yn caniatáu asesiad llawn a chadarn?

**Yr achos dros gael digon o amser ar gyfer asesiad**

Os yw nodi'n gynnar wedi bod yn flaenoriaeth, gyda chynadleddau grŵp teulu neu gyfarfodydd yn cael eu cynnal, gallai hynny atal aelod o'r teulu neu ffrind annisgwyl rhag ymddangos yn sydyn. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r arfer gorau ac ymyrraeth gynnal, gall darpar ofalwyr sy'n berthnasau ddod i'r 'amlwg' yn hwyr yn yr achos, ac mae nhw'n gwneud hynny.

Yn Re S (A Child) [2014] EWCC B44 (Fam), dywedodd y Llywydd mai cyd-destun lle gallai cynnig estyniad i'r amserlen o 26 wythnos fod yn angenrheidiol yw lle mae 'gofalwr teuluol amgen realistig yn dod i'r amlwg yn hwyr yn y dydd.' Felly, mae gan y llys y gallu i bwyso a mesur anfanteision i'r plentyn o oedi yn erbyn yr angen am asesiad cadarn o ofalwr teuluol realistig.

Yn achos mwy diweddar Re P-S (Children) [2018] EWCA Civ 1407, dywedodd y Llywydd, unwaith eto yng nghyd-destun gwarcheidiaeth arbennig,

'Ni ddylai fod – ni all fod – unrhyw amheuaeth o gwtogi'r hyn sy'n angenrheidiol o ran proses deg, ac yn hanfodol i gyflawni'r gwerthusiad priodol a hybu lles y plentyn, oherwydd pryder am effaith posibl oedi angenrheidiol o'r fath ar ystadegau perfformiad y llys.'

**Beth i'w ystyried?**

Mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o'r goblygiadau canlynol posibl ar gyfer cyfnodau asesu byr a dwyn y ffactorau hyn i sylw'r llys lle bo'n briodol:

1) Mae asesiad o allu aelod arfaethedig o'r teulu i ofalu am berthynas ifanc am weddill eu bywyd fel plentyn yn un o'r asesiadau mwyaf cymhleth – yn llawer mwy cymhleth nag asesiadau maethu a mabwysiadu prif ffrwd, sydd yn anaml yn cael eu cwblhau mewn llai na chwe mis.

2) Nid oes llawer o amser, neu unrhyw amser o gwbl, i aelodau'r teulu gymhathu gwybodaeth a myfyrio arno os yw'r amserlenni yn rhy fyr.

3) Ni ellir creu'r berthynas mae angen i'r aseswr ei hadeiladu gyda'r gofalwr mewn ffrâm amser byr ac o dan bwysau. Mewn proses asesu fyfyriol dda mae'r gwaith yn seiliedig ar berthynas llawn ymddiriedaeth a ddatblygwyd rhwng yr aseswr a'r sawl sy'n cael ei asesu fel y gall y gofalwr archwilio eu teimladau o amheuaeth, dicter a phryder am y lleoliad arfaethedig, yn ogystal ag edrych ymlaen at y pethau cadarnhaol. Bydd asesiad byrrach lle nad oes amser ar gyfer cefnogi a herio yn asesiad gwan.

4) Mae archwiliadau a thystlythyrau yn cael eu peryglu gan asesiad byr. Mae ymarferwyr yn tueddu i aros i gyfweld canolwyr yn ddiweddarach yn y broses lle gallai gwendidau fod wedi dod i'r amlwg a gellir profi'r rhain gyda'r canolwyr. Os oes rhaid i gyfweliadau gael eu cynnal cyn gynted ag y mae'r asesiad yn cychwyn neu'n fuan wedi hynny, mae hwn yn ffynhonnell diogelu arall a gollwyd.

5) Weithiau mae aelodau o'r teulu sy'n cynnig eu hunain fel gofalwyr yn ymwneud â'r rhesymau dros a'r amgylchiadau sy'n ymwneud â symud y plentyn. Nid yw hyn yn golygu nad ydynt yn gallu darparu gofal digon da, ond mae angen cael y cyfle i arddangos y gallu i newid. Mae asesiad byr yn gwadu'r cyfle hwnnw i rai darpar ofalwyr wneud yr addasiadau angenrheidiol i'w ffordd o fyw neu batrwm rhianta.

Os nad yw ymarferydd wedi cael y cyfle i gynnal asesiad cadarn a llawn dan yr amgylchiadau ac yn ystod yr amser a ddarparwyd, yna dylent nodi yn eu tystiolaeth lle mae'r diffygion a'r goblygiadau posibl o wneud gorchymyn ar gyfer lleoli'r plentyn o dan yr amgylchiadau hyn. Dylid rhoi rhesymau manwl i'r llys ynghylch pam na ellir cynnal asesiad llawn o fewn yr amserlen, beth sydd angen ei gwblhau ac amserlen resymol ar gyfer ei gwblhau. Yna mae i fyny i'r llys benderfynu p'un a ddylid rhoi'r amser ychwanegol y gofynnwyd amdano.



# Rôl y panel maethu a'r penderfynwr

6



O dan Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003, fel y'i diwygiwyd, mae fyny i'r panel a'r penderfynwr wneud argymhelliad a phenderfyniad o ran p'un a yw darpar ofalwr maeth sy'n berthynas yn addas i fod yn ofalwr maeth ar gyfer plentyn priodol neu grŵp o frodyr a chwiorydd. Mae'r argymhelliad a'r penderfyniad hwn yn seiliedig ar yr holl wiriadau, gan gynnwys gwiriad DBS manwl a geirdaon sy'n ofynnol yn unol â'r rheoliadau ac asesiad manwl gan yr ymgynghorydd meddygol, yn seiliedig ar wybodaeth gan yr ymgeiswyr eu hunain a'u meddyg teulu.

Mae'r broses o wneud penderfyniad p'un ai i gymeradwyo ymgeisydd fel gofalwr maeth yn destun y canllawiau a nodwyd yn achos Hofstetter v LB Barnet and IRM [2009] EWHC 328 (Admin).

Nid yw'r rheoliadau yn gwahaniaethu rhwng cymeradwyaeth gofalwyr maeth prif ffrwd a gofalwyr sy'n berthnasau. Mae telerau cymeradwyo yn aros yr un fath – sef o dan reoliad 28 bod rhaid cwblhau asesiad addasrwydd ac mae'n rhaid i'r panel maethu ystyried y cais.

Mae'r gwahaniaeth ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn nhelerau'r gymeradwyaeth honno. O dan reoliad 28 mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth maethu benderfynu ar delerau cymeradwyo a nodi, yn ysgrifenedig, y telerau cymeradwyo hynny, sef eu bod wedi'u cymeradwyo fel gofalwr maeth addas ar gyfer plentyn penodol/grŵp o frodyr a chwiorydd.

Rhoddir consesiwn i ofalwr maeth sy'n berthynas dan reoliad 27 lle na all gofalwr maeth sy'n berthynas i'r plentyn gael ei ystyried yn anaddas yn awtomatig os ydynt wedi'u cael yn euog o nifer o droseddau.

Mae paneli a phenderfynwyr yn ei chael hi'n anodd cymhwyso holl rym y rheoliadau a chraffu ar 'addasrwydd' ar gyfer lleoliad gyda pherthnasau, yn enwedig lle mae'r plentyn eisoes wedi'i leoli o dan reoliad 26 cppcr(w)r 2015.

Bydd paneli a phenderfynwyr yn cael cymorth gyda'r broses hon os ydynt yn canolbwyntio ar anghenion unigol y plentyn/plant dan sylw, gan fod y gofalwyr hyn yn cael eu hasesu a'u cymeradwyo i ofalu am y plentyn penodol hwn yn unig. Gallai cryfderau'r berthynas sy'n bodoli eisoes, gwybodaeth am a chyswllt gydag aelodau'r teulu a pharu'n rhan o'r teulu ehangach gael eu cydbwyso yn erbyn gwendidau'r gofalwyr o'u cymharu ag ymgeiswyr prif ffrwd.

Mae'n bosibl defnyddio set o gymwyseddau diwygiedig ar gyfer asesiadau maethu gan berthynas, sy'n ystyried anghenion unigol y plentyn hwn yn hytrach nag anghenion damcaniaethol plentyn sy'n derbyn gofal mewn ystod oedran penodol. Nid yw cymwyseddau wedi'u nodi mewn rheoliadau neu ganllawiau a gallai awdurdodau lleol ddyfeisio eu cymwyseddau eu hunain er mwyn cynorthwyo aseswyr, paneli a phenderfynwyr o ran p'un a yw'r gofalwr penodol hwn yn addas fel gofalwr maeth ar gyfer y plentyn hwn/grŵp o frodyr a chwiorydd.

Mae cymeradwyo gofalwr sy'n berthynas fel gofalwr maeth yn benderfyniad gweinyddol – mae yn nwylo'r awdurdod lleol, nid y llys teulu. Fodd bynnag, fe wnaeth achos T (A Child) [2018] EWCA Civ 650 ddatgan, er nad all y llys ddweud wrth yr awdurdod lleol beth ddylai'r cynllun gofal fod, gall y llys ddisgwyl lefel uchel o barch (gan yr awdurdod lleol) i asesiad y llys o berygl a lles, gan arwain ymhob achos bron at roi'r asesiadau hynny ar waith (hynny yw cymeradwyo gofalwr maeth sy'n berthynas os yw'r llys yn asesu'n ffafriol). Hefyd ni all yr awdurdod lleol wrthod darparu gwasanaethau cyfreithlon a rhesymol a fyddai'n angenrheidiol i gefnogi penderfyniad y llys (bod yr ymgeisydd yn addas) os byddai drwy wneud hynny'n torri erthygl 8 hawliau'r teulu dan sylw neu fod ei broses gwneud penderfyniad yn anghyfreithlon ar sail cyfraith gyhoeddus (h.y. os oedd hi'n afresymol peidio darparu lefel penodol o wasanaeth).

# Paratoi, hyfforddi a chefnogi

7

## 7.1 HYFFORDDIANT CYN CYMERADWYO

Un o'r heriau mawr wrth asesu aelodau'r teulu fel gofalwyr sy'n berthnasau yw darparu'r lefel o hyfforddiant sydd ei angen i'w paratoi i fod yn addas i gael eu cymeradwyo fel gofalwyr maeth o dan Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003, o fewn amserlenni llawer llai na'r rhai a gymeradwyir fel gofalwyr maeth prif ffrwd. Mae angen i ymarferwyr fod yn greadigol wrth feddwl sut y gellir rhannu elfennau cwrs paratoi gyda darpar ofalwyr sy'n berthnasau. Gellir addasu dulliau asesu a ddefnyddir eisoes gan ymarferwyr wrth asesu gofalwyr prif ffrwd yn hawdd i'w defnyddio gyda darpar ofalwyr sy'n berthnasau.

## 7.2 HYFFORDDIANT AR ÔL CYMERADWYO

A ddylai hyfforddiant ar ôl cymeradwyo gael ei gynnal ynghyd â gofalwyr maeth prif ffrwd? Mae profiad rhai gofalwyr sy'n berthnasau o hyfforddiant integredig yn gadarnhaol, gyda gofalwyr prif ffrwd yn amgyffred amgylchiadau'r teulu ac yn cynnig atgyfnerthiad cadarnhaol. Nid yw profiadau eraill wedi bod mor gadarnhaol, gyda gofalwyr yn teimlo iddynt gael eu barnu fel aelodau o'r teulu yn hytrach na'u derbyn fel gofalwyr maeth. Mae rhai gofalwyr yn teimlo fod cyfarfod gofalwyr maeth prif ffrwd yn 'ysgubol'.

Nid yw hyn yn golygu ei fod yn ddymunol (neu'n ymarferol hyd yn oed) darparu hyfforddiant a chefnogaeth cwbl arwahanol i ofalwyr sy'n berthnasau, ond mae angen rheoli integreiddio'n ofalus, gan adeiladu cefnogaeth i mewn ar y dechrau, ac efallai rhywfaint o addysg yn cael ei ddarparu i ofalwyr prif ffrwd wrth baratoi am grwpiau cymysg.



**Yr hyn nad yw'n gweithio:**

- Gall y gair 'hyfforddiant' ei hun fod yn annymunol – a ellir nodi enw arall?
- Gall mynychu digwyddiad hyfforddiant fod yn frawychus, yn enwedig os yw gofalwr yn teimlo'n bryderus ynghylch cael eu barnu
- Camddealltwriaeth ynghylch beth yw'r hyfforddiant – 'Rwyf wedi magu fy mhlant a doeddwn i ddim angen hyfforddiant ar gyfer hynny'
- Diffyg amser/ymrwymiadau eraill/pellter daearyddol o leoliad yr hyfforddiant

**Beth sydd yn gweithio:**

- digwyddiadau cefnogi
- Mentora cyfoedion
- Hyfforddiant un-i-un anffurfiol
- Mae angen rhywfaint o hyfforddiant i ofalwyr sy'n berthnasau yn unig (os yw'r hyfforddiant yn cael ei rannu gyda gofalwyr prif ffrwd, mae angen rhoi'r gofalwyr sy'n berthnasau mewn tîm gyda'i gilydd ar gyfer yr hyfforddiant)
- Byddai hyfforddiant ar-lein yn benodol ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn elfen ragorol o becyn hyfforddiant a gellid ei ddefnyddio i ddarparu gwybodaeth sain yn ogystal â gwybodaeth ysgrifenedig

## Arfer Da

**Y CHWE PHRIF BWNC HYFFORDDIANT AR GYFER GOFALWYR SY'N BERTHNASAU**

Mae angen i ofalwyr sy'n berthnasau fod yn glir bod yr hyfforddiant canlynol (yn ogystal â meysydd eraill nad ydynt wedi'u nodi yma) yn berthnasol iddyn nhw, y bydd yn ffordd dda o dreulio amser a bydd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol, yn ogystal â'r cyfle i gyfarfod gofalwyr eraill yn gymdeithasol.

1. **Ymlyniad a thrawma ac elfennau PACE.**
   Deall pam fod plant yn ymddwyn mewn ffordd benodol a strategaethau ar gyfer delio gyda'r ymddygiad hwn (mae'n debyg y byddai'n well cynnal hyn mewn sesiwn ar wahân i ofalwyr sy'n berthnasau gan y bydd y drafodaeth yn anochel yn troi at y trawma mae'r plentyn wedi'i ddioddef). Mae hwn yn bwnc, nid yn hyfforddiant diwrnod yn unig – mae angen edrych ar y pwnc mewn camau datblygu gwahanol ac ystyried trawma eilaidd

2. **Gwaith taith bywyd –** naratif/ateb cwestiynau anodd, yn enwedig pan fyddwch chi fel gofalwr yn rhan o naratif y teulu hwnnw

3. **Deall y system:**
   - Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer maethu
   - Mynychu cyfarfodydd
   - Rolau gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'r gweithiwr cefnogi maethu
   - Awdurdod dirprwyedig
   - Gofal diogel/honiadau/datgeliadau + diogelu
   - Cofnodi

4. **Deall dynameg teulu –** Hwn oedd y pwnc y teimlai'r grŵp neiniau a theidiau oedd fwyaf pwysig. I gynnwys:
   - Rheoli cyswllt
   - Pwysigrwydd yn y cyd-destun hwn

5. **Y ffordd ymlaen –** edrych ar fanteision ac anfanteision GGA o'i gymharu â pharhau fel gofalwr maeth ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal

6. **Deall llencyndod –** Hyder mewn Gofal (i'w rannu gyda gofalwyr prif ffrwd ond i gynnwys mwy nag un gofalwr sy'n berthynas)

## 7.3 HYFFORDDIANT AR SAIL RANBARTHOL

Drwy nawdd yr NFF, gall awdurdodau lleol benderfynu darparu hyfforddiant ar sail ranbarthol i ofalwyr sy'n berthnasau.

**Y manteision yw:**

- Mwy o amser ar gael
- Mwy yn mynychu ac felly gwerth gwell
- Defnydd gwell o arbenigedd/hyfforddwyr allanol drud

**Yr anfanteision yw:**

- Daearyddiaeth/amser teithio
- Ddim yn adeiladu rhwydweithiau lleol (ar gyfer cefnogaeth anffurfiol)

Gall cefnogaeth (a rhywfaint o hyfforddiant) i ofalwyr maeth syn berthnasau ochr yn ochr â gwarcheidwaid arbennig hefyd fod yn gadarnhaol – efallai y bydd fframwaith cyfreithiol gwahanol ond mae'r dasg yn debyg iawn.

## 7.4 CEFNOGAETH I OFALWYR

Y ffactor pwysicaf a amlygwyd gan ofalwyr yw agwedd gweithwyr. Dywedodd un gofalwr am ei gweithiwr cefnogi 'y ffordd y gwnaeth hi gyfleu'r angen am asesiad a gwiriadau DBS i ofalu am y teulu...roedd hi'n deall fy nynameg...roedd hi'n ysgwydd i grio arno.'

Er mwyn gallu cefnogi lleoliadau teulu, mae gweithwyr cymdeithasol gofal plant angen hyfforddiant a chefnogaeth penodol o ran gweithio ar y cyd ac yn empathig gyda gofalwyr sy'n berthnasau. Gall gweithwyr cymdeithasol lleoliadau teulu yn aml yn cymryd yr awenau gyda hyn

Mae angen i gydweithredu, empathi a thryloywder ddechrau yn gynnar, gyda gwybodaeth glir yn cael ei rhoi mewn unrhyw gyfarfod grŵp teulu/gyfarfod teulu ac i aelod o'r tîm lleoli â theuluoedd fod ar gael yn y cyfarfod i ateb cwestiynau.

Darparu gwybodaeth ysgrifenedig briodol a hawdd i'w darllen, yn gynnar. Gallai cyfres o daflenni ddarparu'r wybodaeth gywir ar yr adeg iawn. Gallai'r taflenni hyn gynnwys adran ar 'cwestiynau cyffredin'. Mae gan Gonwy daflen ar gyfer gofalwyr sy'n berthnasau.

### Arfer Da

Mae gan Castell-nedd Port Talbot weithiwr cefnogi arbenigol ar gyfer gofalwyr sy'n berthnasau. Maen nhw hefyd yn darparu gweithiwr cymdeithasol ar wahân, lle bo'n briodol, sy'n darparu cefnogaeth i ofalwyr sy'n berthnasau sydd â lleoliad presennol o dan reoliad CPPCR(W) R ac sydd ar wahân i'r gweithiwr cymdeithasol asesu ar gyfer maethu.

Unwaith yn y lleoliad:

- Darparu grwpiau cefnogi anffurfiol i ofalwyr. Unwaith eto gellid rhannu neu gyfuno'r rhain gyda gofalwyr prif ffrwd neu eu darparu gyda gwarcheidwaid arbennig
- Cymorth brys y tu allan i oriau (dylai gael ei ddarparu eisoes?)
- Rhoi ystyriaeth i gefnogaeth ymarferol er mwyn gallu mynychu (teithio/gofal plant/amser grwpiau)
- Mae gweithgareddau (partïon/picnic/teithiau pantomeim) yn weithgareddau cefnogi poblogaidd
- Darparu cyngor seicolegol a chymorth ar wahân i CAMHS
- Darparu grwpiau cefnogi ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan aelodau o'r teulu
- Cydnabod bod llencyndod yn dod â'i heriau i bob teulu a bod angen cefnogaeth hygyrch drwy gydol plentyndod y plentyn
- Help i fanteisio ar wasanaethau cwnsela i'r gofalwyr eu hunain
- Mynediad at wasanaethau eiriolaeth

## 7.5 CEFNOGAETH AR SAIL RANBARTHOL

**Manteision:**

- Yn galluogi 'dewis' mwy o weithgareddau drwy rannu arbenigedd ar draws y rhanbarth
- Osgoi dyblygu/darparu niferoedd hanfodol ar gyfer rhedeg cynlluniau gydag awdurdodau bach iawn
- Darparu cysylltiadau gyda'r gymuned ehangach (e.e. gofalwyr BME eraill/gofalwyr LGBT)
- Mwy o gyfle i rannu arferion gorau



National Fostering Framework
Fframwaith Maethu Cenedlaethol

**FFRAMWAITH MAETHU CENEDLAETHOL**

Cyflwynwyd Adroddiad Cam 2 2016-17 i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd Mawrth 2017 a chytunwyd ar raglen waith ar gyfer Cam Tri 2017-18.

Mae arian ar gyfer y gwaith hwn yn dod o’r buddsoddiad £8miliwn mewn Gwasanaethau Plant a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, mae £400k wedi’i nodi ar gyfer rhaglen waith Cam Tri NFF. Ar ddiwedd mis Medi, cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y bydd £400k yn cael ei neilltuo ar gyfer yr NFF yn y flwyddyn ariannol nesaf 2018-19.

AFA CYMRU
association for fostering and adoption
cymdeithas ar gyfer maethu a mabwysiadu

**AFA CYMRU**

Mae’r Gymdeithas ar gyfer Maethu a Mabwysiadu Cymru (AFA Cymru) yn elusen yng Nghymru sy’n hyrwyddo arfer da ar draws ehangder cynllunio sefydlogrwydd ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae hefyd yn cynnig cyngor, hyfforddiant ac ymgynghoriaeth i weithwyr proffesiynol ac aelodau o’r cyhoedd i gefnogi arfer gorau.

Cyflogir AFA Cymru o dan ymbarél Cymdeithas Plant Dewi Sant ac fe’i ariennir yn rhannol gan grant Llywodraeth Cymru.